**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 18 o Fawrth 2025 am 19:00 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Alan Pritchard, Richard Robinson, Berwyn Parry Jones, Philip Roberts, Hefin Jones, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Beca Brown

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Avril Jones, Cemlyn Jones

**Clerc:** Meirion Jones

**1424. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd am bresenoldeb yr aelodau

**1425 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1426. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1427. I dderbyn cofnodion cyfarfod 18 Chwefror 2025**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1428. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1429. I dderbyn cyflwyniad gan Dr Jenny Wong o Wild Resources ar gynlluniau i ymwneud a coed 'Aspen' sydd ar barc sglefrio'r cyngor yn Cwm y Glo**

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Jenny Wong parthed coed 'Aspen' sydd wedi lleoli ar dir y cyngor yn y parc sglefrio. Eglurodd fod y goeden o fath arbennig a'r bwriad oedd ei defnyddio i gynhyrchu mwy o goed. Derbyniwyd sleidiau gan Dr Wong yn egluro'r broses.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth diolch y fawr i Dr Wong am ddod i egluro'r cynllun i'r cyngor

**1430. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1431. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts).**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent y canlynol

Cyfarfod safle gan yr is-bwyllgor 10.3.25

Cyfarfod yr is-bwyllgor : 13.3.25 -Trafodwyd/Penderfyniadau (a dilyniant):

Gwaith tuag at gyflawni'r holl flaenoriaethau blynyddol am 24/25 h.y. amserlen adeiladu'r wal a chwblhau uwchraddio cyflwr cofebion (o gategori un) erbyn diwedd y flwyddyn Cyngor mewn lle gyda chontractwyr.

Gwaith i adnewyddu stêcs cofebion (categori 2) i ddechrau mis Mawrth. Rheolau'r Fynwent wedi'i adolygu a'i addasu.

Hefyd ,teulu wedi cysylltu ag aelod o'r is-bwyllgor i'n hysbysu y byddent yn osod fainc newydd yn lle ei un wreiddiol yn y fynwent

Cais am sicrhau am dorri gwair cyn Sul y Mamau (30.3.25) wedi ei derbyn a'i awdurdodi

Cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor 29/4/25 am 5.30 y.h. yn y Fynwent (os yw'r tywydd yn caniatáu).

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1432. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (Cyng Avril Jones)**

Yn absenoldeb cadeirydd y pwyllgor cyflwynwyd adroddiad ar ran y Cadeirydd gan Is-gadeirydd y pwyllgor, Y Cynghorydd Philip Roberts

Yn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 4.3.25

Cynghorwyr Rhys Parry ac Ann Lawton yn adolygu cynnwys gwefan y Cyngor e.e. cael cyfieithu cofnodion yr is bwyllgorau .

Adolygu ag addasu'r gyllideb am 24/25 i 4ydd Mawrth 2025.

Adolygu ag addasu'r gofrestr asedau e.e. angen ychwanegu bwrdd picnic Pwll Moelwyn.

Adolygu polisi risg ariannol y Cyngor - a pob taliad i'r Cyngor drwy drosglwyddiad banc ( y Clerc i gysylltu gydag ymgymerwyr ynglŷn â hyn).

Sicrhau fod asesiad risg yn y fynwent yn cael ei gario allan yn flynyddol.

Un Llais Cymru –penderfynu peidio ymaelodi flwyddyn yma ag ail gysidro eto flwyddyn nesaf.

Newyddlen : gweithio tuag at ei chyhoeddi diwedd mis Ebrill 2025

Cyfarfod blynyddol y Clerc, y Cadeirydd ar Is- Gadeirydd wedi cymerid lle dydd Gwener 7 Mawrth.

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid Mai 6ed am 6:00 dros Zoom.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1433. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Yn absenoldeb cadeirydd y pwyllgor cyflwynwyd adroddiad ar ran y Cadeirydd gan Is-gadeirydd y pwyllgor, Y Cynghorydd Gwynedd Williams

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 11 Mawrth 2025 ac fe drafodwyd y materion canlynol:

Casglu sbwriel: mae tipyn o sbwriel wedi hel o gwmpas yr ardal, felly penderfynwyd rhoi cynnig arall ar ddenu gwirfoddolwyr drwy dudalen Facebook y Cyngor gan bwysleisio bod offer ar gael i wneud y gwaith. Cynnwys yr wybodaeth yn y Newyddlen hefyd.

Hyfforddiant diffibriliwr Y clerc i holi parafeddyg o Llanrug am ei help.

Angen trefnu dyddiadau i grwydo'r llwybrau cyhoeddus i archwilio eu cyflwr – Cynghorydd Gwynedd Williams wedi cael rhestr o'r llwybrau gan y clerc.

Rheolau'r Caeau Chwarae – gobeithir y byddant wedi'u hargraffu a'u gosod erbyn mis Ebrill.

Cysgodfa Bws – wedi cael pris ar gyfer y gysgodfa – y clerc i gysylltu â Cybi Cyf i gael pris i'w osod, a hefyd cael cadarnhad gan Gyngor Gwynedd eu bod yn hapus â'r trefniadau.

Dau fwrdd picnic yn cael eu cadw gan Menter Fachwen, disgwyl i'r contractwr eu gosod.

Coed Ffrwythau – ni chlywyd dim ers y cyfarfod yn y Parc Sglefrio y llynedd. Meirion yn cwrdd â Dr Jenny Wong i archwilio dwy goeden yn y Parc Sglefrio i gael hadau, 13 Mawrth.

Asesiadau Risg Coed – y clerc i drefnu bod y gwaith yn cael ei wneud.

Goleuadau Nadolig – talwyd am y goleuadau hyd Nadolig 2025. Y clerc i holi beth fydd y cam nesaf gan fod y contract yn dod i ben.

Cynghorydd Avril Jones yn dal i chwilio am 2 deiar tractor i arddangos blodau, bob pen i Gwm-y-glo.

Angen cael pris am y gwaith sydd angen ei wneud yn y Parc Sglefrio.

Contractwr i dynnu'r ffens bren i lawr ym Mhwll Moelyn.

Angen trefnu dyddiad gyda'n contractwr i fynd o gwmpas y caeau chwarae i weld pa waith sydd angen ei wneud. Gobeithio trefnu dyddiad cyn diwedd mis Mawrth.

Angen archebu blwch halen melyn ar gyfer Rhes Bryn, Cwm-y-glo.

Gobeithio cael cyfarfod â'r sawl sy'n delio â datblygiadau Ysgol Cwm-y-glo yng Nghyngor Gwynedd i adrodd ar y newyddion diweddaraf. Rhai o drigolion y pentref yn bryderus o weld y pentyrrau brics sy'n cael eu cadw yn yr iard, ac am nad ydynt yn cael gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf. Berwyn wedi ateb y cwynion ar Facebook. Mae'n ymddangos bod hyn wedi tawelu'r ofnau.

Wedi edrych ar yr amcanion ar gyfer 2025/26, a phenderfynwyd nad oes dim byd arall i'w ychwanegu ar hyn o bryd. Gobeithio gallu treulio amser i gael mapiau ar gyfer y caeau chwarae yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dim dyddiad wedi'i drefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf – gobeithio cyfarfod ym mis Mai.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1434. I ystyried cheisiadau am grantiau**

**a) Seindorf Llanrug**

**b) Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig**

**Penderfynwyd:**

Cyfrannu £750 tuag at Seindorf Llanrug
Gohirio penderfyniad ar Clwb Pêl-droed oherwydd y ffurflen ddim wedi gyflwyno hyd yn hyn

**1435. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 20:10

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad:

DRAFFT